UEFA PLAYMAKERS

Inspired by Disney

## Gweithgaredd chwaraeon hollol unigryw ... ffordd ddiogel a llawn hwyl i gyflwyno merched 5-8 oed i bêl-droed, gan ddefnyddio hud a lledrith Disney!

**Cofrestrwch â'ch clwb lleol trwy uefa.com/playmakers**






©Disney

# Yn seiliedig ar chwarae actif trwy adrodd straeon, mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) wedi ymrwymo i ddod â llu o straeon Disney yn fyw trwy gyflwyno Rhaglen ysbrydoledig Disney Playmakers UEFA i ysgolion ledled Cymru.

Gyda straeon fel Incredibles 2, Frozen 2 a Moana, mae'r rhaglen hon yn galluogi merched 5-8 oed i roi cynnig ar bêl-droed am y tro cyntaf mewn amgylchedd diogel llawn hwyl. Mae'r rhaglen yn galluogi merched a'u hathrawon i gydweithio er mwyn dysgu sgiliau newydd, cefnogi, annog ac yn bwysicach fyth mwynhau pêl-droed.




Nid yn unig y mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfle i ddysgu'r sgiliau pêl-droed sylfaenol. Yn unol â'r cwricwlwm yng Nghymru, mae'r rhaglen yn cefnogi'r merched i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog trwy ddatblygu sgiliau bywyd penodol a dealltwriaeth o werthoedd penodol i greu cyfranwyr creadigol, hyderus gyda dealltwriaeth o bwysigrwydd llythrennedd corfforol.

Mae pob sesiwn yn rhoi'r cyfle i'r merched:

- Wneud penderfyniadau creadigol wrth gyflwyno'r cefndir.
- Herio, cefnogi, cyfathrebu ac annog ei gilydd trwy weithio fel tîm i berfformio'r driliau.
- Datrys problemau sy'n codi trwy gydol y stori, gan wynebu a goresgyn heriau.
- Arwain a chwarae gwahanol rolau o fewn y stori fel unigolion ac fel tîm.
- Mynegi syniadau ac emosiynau trwy amser myfyrio penodedig.
- Adeiladu eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu sgiliau bywyd fel hyder, gwytnwch ac empathi.
- Cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- Ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag athrawon, cyfoedion a phlant mewn gwahanol grwpiau blwyddyn.



# Ysgolion Cynradd

Mae CBDC wrthi'n adeiladu rhwydwaith dibynadwy o Ysgolion Cynradd ledled Cymru i ddod yn ddarparwyr Disney Playmakers UEFA, a chynnig sesiynau allgyrsiol wythnosol i ferched yn unig o fewn amgylchedd yr ysgol.

## Gofynion ar gyfer ysgolion cynradd:

- O leiaf 1 Athro i gymryd rhan mewn hyfforddiant, ac i arwain y rhaglen ar ran yr ysgol. (1 x sesiwn ar-lein (gyda'r nos) ac 1 x sesiwn diwrnod llawn wyneb yn wyneb.
- Cefnogaeth y Pennaeth a'r Ysgol.
- Ymrwymo i gyflwyno 4 bloc o 8 wythnos o weithgarwch allgyrsiol yn ystod y rhaglen.
- Bod yn agored a pharod i ddefnyddio a darparu cofrestri sesiynau o fewn y canllawiau a ddarperir gan CBDC.
- Angerddol dros ddarparu cyfleoedd penodol i ferched yn unig.
- Targedu 25 o ferched rhwng 5 ac 8 oed ar draws pob 4 bloc o 8 wythnos.

## Manteision i Ysgolion Cynradd:

- Hyfforddiant CBDC i Athrawon – Wedi'i deilwra i'r rhaglen ar gyfer hyd at 2 athro/aelod o staff.
- Pecyn Offer gwerth dros £400 (Bibs, Peli, Conau, Bag Offer).
- Adnoddau wedi'u Brandio: Canllaw Hyfforddi a Phecyn Gweithgareddau i ferched. Incredibles 2, Frozen 2, Moana ac Encanto!Cefnogaeth gan Staff CBDC.
- Asedau hyrwyddo wedi'u brandio.
- Fforwm Rhwydwaith Ar-lein i gysylltu ag ysgolion eraill sy'n cynnal y rhaglen.
- Digwyddiadau a gwyliau dathlu **RHAD AC AM DDIM.**

I gael rhagor o wybodaeth am Raglen Disney Playmakers UEFA ledled Cymru, cysylltwch â: girlsfootball@fawtrust.cymru.